Marches Forward Partnership
Partneriaeth y Gororau Ymlaen

# Nodyn ar Gysyniad Mudiad Bwyd Da y Gororau

**Mehefin 2024**










MONMOUTHSHIRE FOOD PARTNERSHIP
PARTNERIAETH BWYD SIR FYNWY

BWYD POWYS FOOD

SHROPSHIRE GOOD FOOD PARTNERSHIP

Herefordshire FOOD ALLIANCE

# Nodyn ar Gysyniad Mudiad Bwyd Da y Gororau

## Datganiad cenhadaeth

Mae pedair partneriaeth bwyd cynaliadwy bio-ranbarth y Gororau (Swydd Henffordd, Sir Fynwy, Powys a Swydd Amwythig) yn ceisio cyllid i gefnogi eu mudiad bwyd da cydweithredol, gan ysgogi newid o ran systemau er mwyn creu system fwyd ranbarthol wydn ac adfywiol.

## Gweledigaeth

Nodweddir y Gororau gan ddull cyfannol, system gyfan o ymdrin â bwyd a diod da, gan feithrin gwydnwch a chefnogi iechyd a lles y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ar draws y rhanbarth a'r gadwyn gyflenwi.

## Cyd-destun

Mae pob un o'r ardaloedd cyngor hyn yn Leoedd Bwyd Cynaliadwy ac mae ganddynt bartneriaeth fwyd sefydledig gyda Chydlynydd profiadol a Bwrdd neu Grŵp Llywio traws-sector: Bwyd Powys Food, Cynghrair Bwyd Swydd Henffordd, Monmouthshire Food Partnership / Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy a Shropshire Good Food.

Mae'r partneriaethau'n deall bod 'bwyd da' yn: ddiogel, wedi'i brosesu cyn lleied â phosibl, yn foesegol ac yn gynaliadwy. Bwyd iach yw ein ffocws, ond gall cynhyrchion moethus a chynhyrchion sy'n rhoi gwerth ychwanegol hefyd fodloni ein diffiniad o fwyd da pan gaiff ei fwynhau fel dantaith.

Yn ddiweddar, llofnododd pedwar awdurdod lleol y Gororau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ddatblygu Partneriaeth y Gororau Ymlaen, prosiect arloesol sy'n galluogi cydweithio'n drawsffiniol i wneud y mwyaf o botensial digyffwrdd ardal y Gororau. Mae cydweithrediad y pedair partneriaeth bwyd cynaliadwy wedi'i fabwysiadu gan Bartneriaeth y Gororau Ymlaen o dan y maes ffocws 'Bwyd, Datblygu Cefn Gwlad a'r Economi Ymwelwyr'. Fe'i arweinir gan Gyngor Sir Fynwy a'r briff yw:

> ysbrydoli diwylliant bwyd unigryw y Gororau … archwilio datblygiad bwyd a diod cynaliadwy, gwella cadwyni cyflenwi lleol er mwyn cefnogi bywoliaeth yng nghefn gwlad a gweithgareddau marchnad … [ac] edrych yn fanwl ar y cysyniad 'bio-ranbarth', y mae'r Gororau yn darparu rhwydwaith o rheolwyr tir cynaliadwy ynddo er mwyn arddangos arfer da.

## Hanes

Mae'r partneriaethau bwyd wedi cael llawer o lwyddiant yn y gorffennol wrth ddod â rhanddeiliaid ynghyd yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae uchafbwyntiau diweddar ac uchafbwyntiau sy'n mynd rhagddynt yn cynnwys:

| **Sir Amwythig** | **Sir Fynwy** |
|---|---|
| • Gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, 2023<br>• Llwybr Bwyd Da Swydd Amwythig, 2023–<br>• Marches Real Food and Farming Conference and Network, 2023– | • Cynllun Buddsoddiad Cadwyn Gyflenwi Llysiau Cymru mewn Ysgolion, 2023–<br>• Ffair Fwyd Gwanwyn y Fenni, 2024<br>• Diwrnodau 'Coginio a Rhannu' Cymunedol, 2023 |

| | |
|---|---|
| • Citizen's Good Food Challenge 2003–<br>• Schools Food Web Action, 2024– | • Rhwydwaith Ffermwyr Talk Farm Regen Monmouthshire, 2023–<br>• Rhwydwaith Busnes Bwyd a Diod Sir Fynwy, 2023– |
| **Powys**<br>• Hwb Caffael Bwyd Cynaliadwy, 2022–<br>• Uwchgynhadledd Fwyd, 2023<br>• Prosiect Ffermydd y Dyfodol, 2023–<br>• Cyflwyno gweithdai bwyd Ysgol a Chymunedol gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys, 2023–<br>• Cynllun buddsoddi cadwyn gyflenwi Llysiau Cymru mewn Ysgolion, 2024– | **Sir Henffordd**<br>• Gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, 2023<br>• Prosiect Peilot Bwyd Ysgol, 2023<br>• Lansio Rhaglen Ysgolion Iach, 2024<br>• Autumn Feasts 2023: River-Friendly a 100% Herefordshire<br>• Blaenoriaethau Bwyd wedi'u gwreiddio yn y Bwrdd Partneriaeth Hinsawdd a Natur<br>• Prosiect Picking and Processing (gwarged o gynnyrch ffres i'r pantri bwyd) 2023– |
| **Cydweithio Rhanbarthol**<br>Yn 2022/23 llwyddodd y pedair partneriaeth i gael gafael ar gyllid ar y cyd ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer prynu bwyd deinamig rhanbarthol. Cyllid gan Sefydliad Dixon ac ymchwil a gynhaliwyd gan y Countryside & Community Research Institute, Prifysgol Caerloyw, dan arweiniad y partneriaethau cydweithredol. Bydd cydweithio yn y dyfodol yn adeiladu ar ganlyniadau'r astudiaeth honno yn unol â'r blaenoriaethau a nodir isod. | |

## Blaenoriaethau

### Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chreu dinasyddion bwyd gweithgar

Camau gweithredu ar lefel leol y mae partneriaethau bwyd yn eu defnyddio i gefnogi, hwyluso ac ysgogi newid i systemau bwyd yn eu siroedd.

### Meithrin economi bwyd lleol cryf drwy gefnogi cynhyrchwyr a datblygu cadwyni cyflenwi

Camau cydweithredol rhanbarthol er mwyn creu mwy o effaith a chyrhaeddiad ar raddfa ecosystem o ran y defnydd o dir amaeth-ecolegol a datblygu cadwyni cyflenwi.

### Darparu gweledigaeth a llais ar gyfer polisi ac arferion system fwyd bio-ranbarthol

Camau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol i ymhelaethu ar y dull bio-ranbarthol o newid systemau bwyd.

## Canlyniadau: Yr Achos dros Gydweithio

- Mae partneriaethau bwyd sirol cryf yn hyrwyddo gweithredu system fwyd traws-sector a system fwyd sy'n seiliedig ar leoedd ac yn cydweithio i adeiladu mudiad bwyd da ar draws y rhanbarth.
- Mae mentrau tyfu, coginio a rhannu a arweinir gan y gymuned yn cynyddu o ran maint, cyrhaeddiad a chynaliadwyedd, gan alluogi mwy o bobl i gynhyrchu a bwyta bwyd iach, maethlon.
- Cefnogaeth i greu cadwyni cyflenwi byrrach, agosach, datblygu seilwaith lleol a llwybrau newydd i'r farchnad ar gyfer cynnyrch adfywiol ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat – dull rhanbarthol yn dod â graddfa'r farchnad

- Sgiliau a chapasiti a adeiladwyd ymhlith pobl ifanc trwy gyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn ffermio amaeth-ecolegol, yn darparu llwybrau gyrfa i fywoliaethau gwledig yn y rhanbarth.
- Mae'r Gororau yn cynyddu ei henw da fel cyrchfan bwyd a diod i ymwelwyr gyda Llwybrau Bwyd Da, Gwyliau Bwyd a Sioeau enwog ym mhob sir.
- Mae dull bio-ranbarthol o greu system fwyd fwy lleol a chadarn yn dangos effaith fawr a’r potensial ar gyfer ymgysylltu â pholisi rhanbarthol.